OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 268 (Cy. 31)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32a i Gyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *8 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *18 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32a i Gyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 18 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffyrdd 32a a 32 yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feiciau pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 8 Chwefror 2013

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Cerddwyr a Beicwyr

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32a (Springfield a Helygain).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Cyffordd Dolphin).

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys ganol wrth gyffordd Little Chef, i'r dwyrain o Gyffordd 32a hyd at bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32, gan gynnwys y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd Little Chef a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32a.